Datganiad Plaid Cymru ar Doriadau Gwariant Cyhoeddus Cyngor Rhondda Cynon Taf

Mae datganiadau cyhoeddus gan Lafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu eu bod oll wedi ymrwymo i barhau â mesurau llymder pellach, er gwaetha'r niwed i unigolion ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae'n anorfod bellach felly fod trigolion Rhondda Cynon Taf yn wynebu sawl blwyddyn o doriadau gwariant cyhoeddus cynyddol.

Bydd effaith gynyddol y toriadau hyn yn andwyol i'n cymunedau, oni weithredwn ni fesurau i liniaru'r effeithiau gwaethaf a datblygu ffyrdd amgen o weithredu pethau, yn wyneb dyfodol gyda lefel o wariant cyhoeddus sy'n is na'r hyn a gafwyd yn y gorffennol.

O dan yr amgylchiadau cred Plaid Cymru y dylid rheoli'r toriadau mewn modd a fydd, cyn belled â phosibl, yn:

- Gwarchod aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas
- Parhau â chynlluniau sy'n cefnogi'r ardaloedd mwyaf difreintiedig
- Sicrhau y dylai'n plant a'n pobl ifainc barhau i dderbyn addysg llawn amser rhwng 3-18 mlwydd oed
- Peidio â chael effaith negyddol ar fusnesau a chyfleoedd gwaith lleol
- Galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i barhau â phartneriaethau effeithiol gyda mudiadau eraill

Cred Plaid Cymru ymhellach y dylai Cyngor Rhondda Cynon Taf:

- Geisio gwneud y gorau o'r twf mewn cyfleoedd gwaith trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau i'r cyngor gan fusnesau sydd wedi eu gwreiddio'n lleol
- Ceisio cynyddu'r incwm a dderbynir o'r asedau sy'n eiddo iddo
- Cael gwared ar bolisïau sy'n rhwystro twf yr economi leol
- Hybu a chefnogi datblygiad ffyrdd amgen o weithredu megis trwy grwpiau prynu, grwpiau cyfnewid nwyddau a gwasanaethau lleol, mwy o gyfranogiad gan undebau credyd, a datblygu mentrau cydweithredol

Mae sialensau'r ychydig flynyddoedd nesaf yn golygu bod angen i'n cymunedau ddysgu sefyll ar ein traed ein hunain neu suddo'n ddyfnach eto i dlodi.

Plaid Cymru – The Party of Wales, Rhondda Cynon Taf
Tachwedd 2013